# PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn TRWY CYFRWNG FIDEO, Dydd Iau, 18 Mawrth 2021 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Hugh Irving (Is-gadeirydd), Bob Murray, Paul Penlington, Arwel Roberts (Cadeirydd), Peter Scott, Andrew Thomas a David Williams

Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, Cynghorydd Tony Thomas ar gyfer eitem 6.
Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd, Cynghorydd Brian Jones ar gyfer eitem 5.
Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau, Julian Thompson-Hill ar gyfer eitemau 7 ac 8.

Mynychodd y Cynghorwyr Meirick Lloyd Davies ac Emrys Wynne fel arsyllwyr

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (TW), Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu (TD), Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata (LG), Prif Lyfrgellydd (BH), Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad (IM), Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad (EH), Cydlynydd Craffu (RhE) a Gweinyddwr / Gwesteiwr Pwyllgorau (KJ).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Martin Holland a Geraint Lloyd-Williams.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## 3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion brys wedi eu codi gyda'r Cadeirydd cyn y cyfarfod.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2021. Penderfynodd y Pwyllgor:

***<u>Penderfyniad:</u> - derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2021 a'u cymeradwyo fel cofnod cywir o'r cyfarfod.***

Ni chodwyd unrhyw fater mewn cysylltiad â chynnwys y cofnodion.

## 5 ADOLYGU GWASTRAFF MASNACHOL AC AILGYLCHU

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd, y Cynghorydd Brian Jones, yr adroddiad (a oedd eisoes wedi'i gylchredeg) yn esbonio bod y gwasanaeth gwastraff gweddilliol, heblaw am yr amhariad yn ystod cyfnod clo Covid-19, yn gweithio'n dda a chefnogodd argymhellion yr adroddiad y dylai'r gwasanaeth barhau i weithredu yn yr un ffordd wrth symud ymlaen.

Atgoffodd y Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, Tony Ward, y Pwyllgor bod y gwasanaeth gwastraff masnachol gweddilliol wedi cael ei gontractio allan i Veola ym mis Awst 2018 gydag ymrwymiad i adolygu'r gwasanaeth yn y Pwyllgor Craffu Perfformiad ar ôl iddo gael amser i ymsefydlu. Roedd Atodiad 1 yr adroddiad, a gwblhawyd gan Wrap Cymru, yn tynnu sylw at lwyddiant y Gwasanaeth hyd yma. Y bwriad oedd adnewyddu'r contract pan ddaw i ben ym mis Awst 2021.

Esboniodd Tara Dumas, Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu, y sail resymegol ar gyfer cadw'r gwasanaeth ailgylchu gwastraff masnachol yn fewnol. Roedd yr Awdurdod yn y sefyllfa orau i reoli'r ymarfer o wahanu gwastraff yn ei darddle a fyddai'n ofynnol yn y dyfodol er mwyn cydymffurfio â Deddf yr Amgylchedd ac a oedd eisoes yn ymarfer sefydledig ar rowndiau domestig.

Roedd casglu gwastraff wedi'i wahanu yn y tarddle yn gostus. Fodd bynnag, gallai'r Awdurdod fanteisio ar y gwasanaeth casglu domestig i gasglu'r biniau 4 olwyn mawr ochr yn ochr â'r gwasanaeth domestig wythnosol ar gyfer casgliadau cymunol a bocsys troli bach, gan leihau costau i fusnesau a chaniatáu i'r Awdurdod adfer ei gostau ei hun.

Wrth ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, dywedodd y Swyddogion:

- Mae'r ffioedd presennol yn sefydlog yn ddibynnol ar faint y cynhwysydd.
- Nid oedd taliadau ailgylchu wedi cael eu pennu ar gyfer busnesau eto.
- Roedd yr Awdurdod yn denu llawer iawn o fusnesau bach a oedd yn gofyn am gasgliadau gwastraff masnachol.
- Byddai cyfuno'r gwasanaethau casglu gwastraff masnachol a domestig yn lleihau effaith ôl troed carbon yr Awdurdod.
- Roedd amryw o addasiadau wedi cael eu gwneud i'r casgliadau arfaethedig o aelwydydd i osgoi cael effaith andwyol ar leoliadau gwledig neu dai amlfeddiannaeth / fflatiau.
- Roedd gofyn i Awdurdodau Lleol fod yn dryloyw a chyhoeddi eu polisïau prisiau, ond nid oedd yn ofynnol i fusnesau preifat wneud hynny.
- Roedd prosiect cydweithio yn yr arfaeth gyda Chonwy ar gyfer adnewyddu'r contract i reoli canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref.
- Roedd siop ailddefnyddio yn cael ei sefydlu yng nghanolfan ailgylchu y Rhyl a disgwylid iddi agor ym mis Ebrill / Mai 2021.
- Roedd fideo ar gael yn dangos sut mae gwaith ailgylchu Shotton yn gweithio a byddai modd cylchredeg y fideo hon i'r aelodau.

Cynigwyd y dylid trefnu ymweliad safle i weld gwastraff yn cael ei wahanu mewn canolfan ailgylchu pan fydd y cyfyngiadau Covid yn caniatáu i ymweliadau

ailddechrau. Awgrymodd y Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu ymweld â Pharc Adfer, sef canolfan troi gwastraff yn ynni yng Nglannau Dyfrdwy sydd â chanolfan ymwelwyr bwrpasol (ar gau yn ystod y cyfnod clo) a allai fod o ddiddordeb i aelodau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu hadroddiad a'u cyflwyniad. Penderfynodd y Pwyllgor:

***<u>Penderfyniad:</u> - o ystyried y tasgau, y targedau a'r terfynau amser yn y 'Cynllun Cyflawni Gwastraff ac Ailgylchu Masnachol' (Atodiad 2), cefnogi'r Cynllun fel fframwaith ar gyfer cyflawni'r argymhellion allweddol yn seiliedig ar ganfyddiadau Adroddiad Adolygu Gwastraff Masnachol WRAP Cymru (Atodiad 1)***

## 6 SAFONAU A PHERFFORMIAD Y GWASANAETH LLYFRGELL

Cyflwynodd y Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata, Liz Grieve yr adroddiad (eisoes wedi'i gylchredeg) a oedd yn cwmpasu blwyddyn ariannol 2019/2020 a oedd hefyd wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Roedd pob un o'r Hawliau Craidd wedi cael eu cyflawni (cyfeiriwyd at Atodiad A). O'r 16 o Ddangosyddion Ansawdd roedd gan 10 ohonynt dargedau. Roedd y cyfyngiadau oherwydd Covid-19 wedi cael effaith ar Ddangosyddion Ansawdd ac o ganlyniad dilëwyd rhai ohonynt. Roedd trafodaethau ar y gweill ynglŷn â sut y gellid asesu perfformiad ar gyfer blwyddyn 2020/2021 ond mae'n debyg y byddai'n fwy o adroddiad naratif. O'r 9 targed a oedd yn weddill ar gyfer 2019/2020; cafodd 7 eu cyflawni yn llwyr, 1 yn rhannol ac 1 a oedd heb gyflawni'r targed.

Nid oedd unrhyw newid sylweddol i adolygiad Llywodraeth Cymru o Wasanaeth Llyfrgelloedd Cyngor Sir Ddinbych. Cafodd ymrwymiad Sir Ddinbych i iechyd a lles – partneriaethau gweithredol gyda Gwasanaethau Cymorth Cymunedol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chyrff y Trydydd Sector – ei nodi ac ystyriwyd bod hynny'n bwysig wrth fynd ymlaen. Hefyd yn bwysig oedd defnyddio mwy o adnoddau digidol a chanolbwyntio ar ddatblygu staff.

Nid oedd y Dangosydd Ansawdd ar gyfer deunydd darllen cyfredol a phriodol wedi cael ei gyflawni. Er bod deunyddiau newydd yn cael eu caffael, nid oedd gwariant wedi cyrraedd y targed a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y gwaith a wnaethpwyd gan lyfrgelloedd a phartneriaethau ledled gogledd Cymru yn golygu nad oedd hynny wedi cael effaith ddifrifol ar breswylwyr.

Roedd Sir Ddinbych wedi cyrraedd y brig (allan o 22 o awdurdodau Cymreig) am nifer y llyfrau Cymraeg a fenthycwyd fesul pen o'r boblogaeth. Canmolwyd y staff a oedd yn gyfrifol am drefnu grwpiau darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Rhoddodd y Prif Lyfrgellydd, Bethan Hughes, y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am rôl llyfrgelloedd yn ystod pandemig Covid-19 a chyfnodau clo dilynol gan gynnwys:

- adleoli staff i ddarparu gwasanaeth Galwadau Rhagweithiol y Cyngor i breswylwyr sydd ar y rhestr warchod;
- ehangu a hyrwyddo'r Llyfrgell Ddigidol – gwelwyd cynnydd o 118% mewn benthyca digidol.
- newid gwasanaeth y tîm Dechrau Da i fod yn wasanaeth ar-lein;
- cyflwyno gwasanaeth Archebu a Chasglu llyfrau llyfrgell wrth i gyfyngiadau lacio;
- darparu gwasanaethau Siop Un Alwad ar-lein a thros y ffôn;
- derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynnal prosiect gweddnewid digidol i ailddyrannu ystafelloedd bach mewn llyfrgelloedd er mwyn caniatáu i breswylwyr eu harchebu i gymryd rhan mewn cyfarfodydd ar y rhyngrwyd a
- hyfforddi staff llyfrgelloedd i gynnal digwyddiadau ar-lein.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor:

- wrth ddychwelyd i'r drefn arferol byddai cwsmeriaid yn parhau i gael eu cefnogi i dalu eu biliau mewn dulliau eraill (heb fod ar-lein) y tu allan i'r llyfrgell.
- roedd cynlluniau i'r dyfodol yn cynnwys dolenni mynediad i'r Gwasanaeth Archifau a'i lyfrgell gwybodaeth;
- cafodd cwsmeriaid eu cyfeirio a'u cefnogi i gael mynediad at wasanaethau digidol ar-lein ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru;
- roedd penderfyniad ymwybodol wedi cael ei wneud (sawl blwyddyn yn ôl) i ostwng y gyllideb sy'n cael ei gwario ar lyfrau newydd ac roedd hynny'n annhebygol o newid yn y dyfodol gan y teimlwyd bod y Gwasanaeth, trwy reoli'n ofalus, yn gallu ateb galw'r darllenwyr o fewn ei adnoddau cyfyngedig;
- roedd yn rhaid i lyfrgellwyr ystyried llyfrau poblogaidd yn erbyn pynciau arbenigol gan weithio o fewn cyllideb. Mantais cydweithio'n agos â llyfrgelloedd gogledd Cymru oedd y gellid cael gafael ar lyfrau arbenigol o wasanaethau llyfrgelloedd eraill ambell waith.

Canmolodd y Pwyllgor waith staff y Llyfrgelloedd.

Felly:

***<u>Penderfynwyd:</u> - yn amodol ar y sylwadau uchod:***

***(i) derbyn a llongyfarch Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Cyngor ar ei berfformiad yn erbyn 6ed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru; a***
***(ii) bod adroddiad cynnydd pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2022 ar sut mae'r Gwasanaeth wedi perfformio yn erbyn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn ystod 2020/21 a'r modd y mae wedi addasu ei wasanaeth i ddiwallu anghenion preswylwyr yn ystod y flwyddyn.***

## 7 DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUN CORFFORAETHOL CHWARTER 3 2020-2021

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau Strategol, Julian Thompson-Hill, yr adroddiad (eisoes wedi'i gylchredeg) wrth i'r Cyngor ddechrau ar flwyddyn olaf ei

Gynllun Corfforaethol. Dywedodd bod Covid-19 wedi cael effaith ar rai elfennau o'r Cynllun Corfforaethol – yn bennaf darparu prosiectau yn hwyrach na'r disgwyl.

Roedd y dudalen grynodeb yn adrodd am gynnydd da yn gyffredinol. Roedd dau faes yn dal i fod yn flaenoriaeth ar gyfer gwella mesurau. Dull diofyn y Cyngor, os oes data cenedlaethol ar gael, yw bod perfformiad uwch na'r chwarter uchaf yn cael ei ystyried yn ardderchog, a bod perfformiad o dan y canolrif yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer gwelliant. Os nad oes data cenedlaethol ar gael, mae penderfyniad lleol yn cael ei wneud ynglŷn â beth sy'n cyfrif fel perfformiad ardderchog neu flaenoriaeth ar gyfer gwelliant.

Dywedodd yr Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad, Iolo McGregor, nad oedd yr adroddiad yn dod yn y drefn y byddai aelodau yn arfer ei dderbyn oherwydd cyfnod clo Covid-19.

Roedd y ddau fesur a amlygwyd i'w blaenoriaethu ar gyfer gwelliant yn parhau sef:

- Cysylltu Cymunedau – a oedd yn cynnwys argaeledd Band Eang ledled y sir
- Pobl Ifanc – roedd data addysg wedi cael ei effeithio gan y pandemig ac roedd yn eithriadol o annhebygol y byddai unrhyw ddata addysgol manwl ar gael am amser hir iawn.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y modd yr oedd y Cyngor wedi ymateb i Covid-19 a byddai'n parhau i wneud hynny wrth symud ymlaen.

Dywedodd yr Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad a'r Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol:

- Byddai'r arolwg preswylwyr / budd-ddeiliaid yn cael ei gynnal eto i ganfod beth yw'r blaenoriaethau yn y Sir er mwyn bod yn sail i'r Cynllun Corfforaethol nesaf.
- Disgwylid gweld cynnydd cyflym mewn gwaith adeiladu yn y portffolio tai yn y dyfodol agos.
- Byddai canlyniadau arolwg tai STAR a gynhaliwyd gyda Thenantiaid y Cyngor yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu i'w harchwilio yn y dyfodol agos.
- Efallai yr hoffai Aelodau ddefnyddio'r wybodaeth yn Niweddariad y Cynllun Corfforaethol i nodi meysydd lle roedd angen gwneud gwaith craffu pellach e.e. darpariaeth tai fforddiadwy.
- Roedd cyfnod y Cynllun Corfforaethol yn adlewyrchu cyfnod y Cyngor a
- Roedd disgwyl i'r Cynllun Tai Gofal Ychwanegol yn Ninbych gael ei gwblhau erbyn y dyddiad targed sef Ebrill 2021.

Penderfynodd y Pwyllgor:

***<u>Penderfyniad:</u> - Yn amodol ar y sylwadau a'r arsylwadau uchod, derbyn yr adroddiad ar berfformiad y Cyngor o ran cyflawni ei Gynllun Corfforaethol 2017-22 yn ystod Chwarter 3 2020-21.***

**8 ADOLYGIAD O'R GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau, Julian Thompson Hill adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Mewn crynodeb dywedodd yr Aelod Arweiniol:

- Nad oedd unrhyw risgiau newydd wedi'u nodi ers yr adroddiad diwethaf
- Roedd Risg 46 –Cyflenwi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd wedi cael ei ddileu oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi ymestyn y dyddiad cau.
- Roedd Risg 14 – iechyd a diogelwch wedi codi mymryn oherwydd effaith weddilliol Covid-19
- Roedd Risg 44 – Clefyd Coed Ynn wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu nad oedd y Cyngor bellach yn ceisio cydweithio ag awdurdodau eraill a
- Nad yw oddeutu 55% o Risgiau Corfforaethol yn gydnaws â Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg y Cyngor.

Dywedodd Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad, Iolo McGregor (IM) wrth y Pwyllgor bod yr adroddiad wedi cael ei wella ers yr un a ystyriwyd ym mis Medi 2020 gan fyfyrio ar gyfnod clo cyntaf Covid-19 a Brexit. Aeth ymlaen i esbonio'r cysyniad o Barodrwydd i Dderbyn Risg a sut i'w ddefnyddio fel offeryn i ystyried a yw'r Awdurdod yn gwneud digon gan roi'r enghreifftiau canlynol:

- Roedd y Clefyd Coed Ynn yn broblem gymharol newydd ac roedd llawer o wybodaeth goll megis; ble oedd yr holl goed yn y Sir, pa niwed allent ei achosi a'r tebygolrwydd y byddent yn cwympo ar rywun. Wrth fynd ymlaen byddai ymchwiliadau yn ateb ac yn mynd i'r afael â'r materion hynny, ac o ganlyniad byddai'n lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â chlefyd coed ynn, gan symud mwy tuag at lefel Parodrwydd i Dderbyn Risg yr Awdurdod.

- Roedd dull gweithredu Parodrwydd i Dderbyn Risg ym maes Diogelu yn gynnil. Fodd bynnag, roedd natur Diogelu yn golygu na fyddai byth dan reolaeth yr Awdurdod. Gan hynny, ni fyddai'r risg byth yn gydnaws â Pharodrwydd i Dderbyn Risg y Cyngor, waeth beth fo'r uchelgais.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor:

- O ran y Gofrestr Risg, mae'r term 'Diogelu' yn cyfeirio at amddiffyn dinasyddion diamddiffyn rhag niwed (waeth beth fo'u hoedran)

- Rhoddir 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwelliant' i unrhyw fesur a oedd yn disgyn o dan y canolrif sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

- Adolygir y Gofrestr Risg bob 6 mis, fodd bynnag mae pob risg yn cael ei dyrannu i berchennog sy'n ei monitro'n gyson yn ogystal â'r Uwch Dîm Rheoli. Roedd y Cabinet hefyd yn adolygu'r Gofrestr bob chwe mis.

Penderfynodd y Pwyllgor:

***<u>Penderfyniad:</u> - Yn amodol ar yr uchod cefnogi ac ardystio'r newidiadau a wnaethpwyd i'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol (Atodiad 1) yn ystod ei***

***adolygiad chwe mis diweddar, gan gynnwys statws pob risg yn erbyn Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg y Cyngor (Atodiad 2).***

## 9 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu adroddiad (a gylchredwyd eisoes) yn gofyn i'r Aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion perthnasol. Atgoffwyd yr Aelodau y dylent lenwi'r ffurflen cynnig ar gyfer y pynciau craffu (atodiad 2) er mwyn i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu adolygu a dyrannu eitemau busnes.

- Roedd ymholiadau wedi cael eu gwneud gyda'r swyddogion perthnasol ynglŷn â p'un a fyddai Adroddiad Blynyddol Drafft Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gael i'w gyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf ar 29 Ebrill. Roedd y gofyniad statudol i gyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol ym mis Gorffennaf 2020 wedi cael ei hepgor gan Lywodraeth Cymru oherwydd y pwysau a achosir gan bandemig COVID-19. Roedd disgwyl i awdurdodau lleol gyhoeddi'r adroddiad hwn erbyn diwedd mis Gorffennaf 2021 i gwmpasu blynyddoedd 2019-20 a 2020-21. Roedd swyddogion wedi cadarnhau na fyddai'r adroddiad ar gael mewn pryd ar gyfer cyfarfod mis Ebrill ond byddai ar gael i'w gyflwyno i'r Pwyllgor yng nghyfarfod mis Mehefin. Cytunodd y Pwyllgor â'r gohiriad hwn, ond gofynnodd a fyddai modd cadw dyddiad cyfarfod mis Ebrill yn agored rhag ofn i eitemau busnes brys gael eu cyflwyno i'w trafod.
- Roedd cais wedi cael ei dderbyn gan swyddogion yn gofyn am ohirio adroddiad dilynol ar Ganolfan Hafan Deg yn y Rhyl tan ddiwedd yr haf neu hydref 2022 gan nad oedd y Ganolfan wedi gallu gweithredu yn agos at ei gapasiti disgwyliedig yn y 12 mis diwethaf oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Byddai contract y Ganolfan yn cael ei adnewyddu yn ystod haf 2021 felly teimlwyd mai'r amser mwyaf priodol i fonitro effeithlonrwydd y Ganolfan oedd blwyddyn i mewn i'r contract newydd pan fyddai cyfyngiadau'r pandemig wedi llacio digon i ganiatáu i'r gweithredwr dyfu'r busnes a'r gwasanaethau sydd ar gael yno gobeithio. Cytunodd Aelodau â'r gohiriad a geisiwyd.

Felly:

***Penderfynwyd: yn amodol ar y newidiadau a gytunwyd uchod, i gymeradwyo Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor.***

## 10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Ni chyflwynwyd unrhyw adborth gan gynrychiolwyr.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:20pm